CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 11Ebrill 2017 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Lena Ashley	Daniel Williams	
Nerys John	Iestyn Harris	
Sarah Riley	George Smith	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Croesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd i gyfarfod mis Ebrill. **Ymddiheuriadau**: Peter Simpson, Aled Emyr, Gruff John, Casi Roberts a Mair Bebb Jones. Roedd y cyfarfod hwn yn ddiwedd cyfnod nid yn unig bod tymor Cyngor arall ar ben ond hefyd bod dau Gynghorydd yn ymddeol, sef y Cynghorydd Lena Ashley a'r Cynghorydd George Smith. Talwyd teyrnged a diolchiadau i'r ddau gan y Cadeirydd Daniel Williams. Diolchwyd iddynt am eu hamser i gefnogi'r gymuned a hefyd am eu harbenigedd mewn sawl maes. Mewn ymateb i i hyn diolchodd Lena Ashley i'r Cyngor am fod yn gyd aelodau mewn Tîm - y tîm gorau ar gyfer y pentref. Diolchodd George i'r aelodau ac i'r Cadeirydd am gael bod yn rhan o'r Cyngor.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD**	
	Cyflwynodd y Cynghorydd Sir ei adroddiad ar lafar. Cyfeiriodd ato dderbyn cwyn am gysgodfan bws y Wern ei fod yn gwlychu os yw yn aros am y bws pan mae yn bwrw oherwydd dyluniad y cysgodfan. Dywedodd hefyd ei fod wedi cael cyfarfod a Marcwis Ynys Môn a oedd yn awyddus i drafod datblygiad ar y tir rhwng Moel y Don a Thŷ Newydd. Cafodd y Cynghorydd ganiatad i anfon manylion cysylltu'r cadeirydd iddo er mwyn trefnu cyfarfod. Cyfeiriodd at y broblem sbwriel sydd wedi bod yn destun trafod i'r Cyngor a bod manylion maniffesto Plaid Cymru ar gyfer yr Etholiadau Sirol yn cyfeirio at ariannu gwasanaethau fel torri gwair, sbwriel a.y.b. Parcio Stryd Bangor- dim newidiadau ar hyn o bryd. Bydd siop elusen ar steil pop up yn neuadd yr eglwys dros yr haf. Dywedodd na fyddai etholiad sirol yn y Felinheli. Cyfeiriodd ei fod wedi derbyn cwynion ynglŷn â thyllau yn Lôn Llwyn a hefyd am fannau pasio ar ffordd Bethel. **Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd ynglŷn â hyn**. Trafodwyd Safle gyferbyn a'r Faenol - y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru.	**CLERC**

3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**COFNODION**	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion 14 Mawrth 2017. **Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.**	
5.0	**MATERION YN CODI**	
5.1	**Hysbysfyrddau** - Cadarnhawyd bod y ddau hysbysfwrdd bellach wedi eu codi.	
5.2	**Toiledau** - y Bragdy bellach wedi derbyn gwybodaeth bod Cyngor Gwynedd a Chyngor Cymuned y Felinheli yn fodlon ar ddyluniad newydd yr adeilad.	
5.3	Wal Gynnal - Ffordd Gaernarfon. Trafodwyd y mater. Roedd y Clerc wedi anfon at Ian Morgan Peiriannydd Ffyrdd Arfon ynglŷn â'r mater ac roedd y Cynghorydd Sir yn aros ymateb gan y Peiriannydd yn gyfrifol i ddod yn ôl ato	
5.4	**Llwybr yr arfordir** - ymateb heb ei dderbyn erbyn y cyfarfod.	
5.5	**Llwybr 19/20 Llanfair -** Ymateb heb ei dderbyn oddi wrth Gyngor Gwynedd.	
5.6	**Casglu Bocsys Glas** - Ymateb heb ei dderbyn oddi wrth Gyngor Gwynedd.	
5.7	**Corbet Bay Boat Park -** D**erbyniwyd gwy**bodaeth bod cost o £20 y flwyddyn ar gyfer gwaith gweinyddu. Bydd arwydd yn datgan hyn yn cael ei godi.	
5.8	**Beddi ar gyfer gweddillion llwch -** rhoddodd y Cadeirydd ddatganiad bod cerrig beddi ar gyfer llwch yn amrywio mewn maint. Er mwyn sicrhau bod maint cerrig beddi yn cael eu codi o fewn rheolau'r fynwent gofynnwyd i'r clerc anfon at holl ymgymerwyr angladdau'r ardal bod angen iddynt gyflwyno cynllun y cerrig beddi i'r Cyngor am ganiatâd cyn bod y gwaith codi yn mynd yn ei flaen. Y maint sydd yn gywir yw plinth uchafswm o 3 modfedd a charreg 18 modfedd o uchel a 15 modfedd oled.	**CLERC**
6.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD**	
6.1	Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar lafar ynglŷn â'r neuadd. Roedd wedi derbyn pris o £295 + TAW am y gwaith cynnal i'r prosceniwm arch - cytunwyd i symud ymlaen a'r gwaith. Gwaith y to heb ei gwblhau. Adroddiad Peter Wray ar y tamprwydd wedi ei gwblhau - trefnu cyfarfod yn y Neuadd i drafod cynnwys yr adroddiad.	
7.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD**	
7.1	Cadarnhawyd gwariant mis Mawrth a	

	derbyn yr adroddiad misol.	
7.2	Mantolen Brawf Estynedig 31 Mawrth 2017 - cyflwynwyd fel gwybodaeth yn unig.	
7.3	Cyflwynwyd llythyr o Benodi Archwiliwr mewnol gan gynnwys manylion yr hyn sydd angen ei wneud - cytunwyd i'w anfon yn swyddogol at John Roberts.	
7.4	Cadarnhaodd y Swyddog Ariannol bod y Cyngor bellach wedi cwblhau'r hyn oedd ei angen ei wneud a phensiynau a bod hyn wedi ei gofrestru.	
8.0	**GOHEBIAETH**	
8.1	Derbyniwyd llythyr o ddiolch am y Cymorth ariannol oddi wrth Yr Ysgol Feithrin, Ysgol Gynradd y Felinheli, Clwb Peldroed a Y Goriad.	
9.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
	Mae tystysgrifau cwblhau'r gwaith wedi eu cyflwyno gan Peter Wray - **bellach gall y Clerc symud ymlaen i wneud cais am yr arian grant**.	**CLERC**
10.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
10.1	APP/0724/20/AM - cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw yn ôl i godi 11 tŷ newydd, creu mynedfa gerbydol newydd a ffordd stad, darparu tir agored cyhoeddus - Tir ger canolfan Iechyd, Ffordd Glan y Môr, Y Felinheli, LL56 4RX - **Y Clerc i anfon datganiad oddi wrth y Cyngor Cymuned gan ddefnyddio rhesymau sydd wedi eu nodi eisoes a hefyd materion sy'n gynwysedig oddi wrth y Cynllun Datblygu ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn.**	**CLERC**
10.2	C17/0307/20/LL - codi balcony newydd - 13 Ffordd Hebog Y Felinheli LL56 4QZ - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
11.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT**	
11.1	Gweler eitem 5.8 uchod.	
12.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
12.1	Cyflwynodd y Clerc adroddiad ar lafar ynglŷn â'r wybodaeth oedd wedi ei dderbyn oddi wrth fferm lafant. Roedd y rhywogaeth sydd yno yn barod ddim yn addas ar gyfer y safle. Cynigodd bod yr isod yn cael eu plannu. Melissa Lilac, Folgate ag eidleweiss. **Y Clerc i wneud ymholiad ynglŷn â chael garddwr i'w plannu, a chael costau'r planhigion.**	**CLERC**
13.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU BYSIAU A MEINCIAU**	
13.1	Cyflwynodd George Smith ei adroddiad ar lafar.	**CLERC**

	Mae angen arwyddion ar gyfer y Llwybr Dinas i Ffordd Gaernarfon a Llwybr 23 Pant yr Afallon. **Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd.** Cafwyd gwybodaeth bod llwybr yn cynnwys stepiau o Lan y Môr i Augusta Place angen sylw. Yn ol y deall roedd tir wedi ei roi ar gyfer y llwybr peth amser yn ôl yn nyddiau Cyngor Sir Gaernarfon.- **Y Clerc i wneud ymholiadau a Chyngor Gwynedd**	
14.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
14.1	Dim i'w drafod.	
15.0	**GWEFAN**	
	Dim gwaith pellach wedi ei wneud hyd nes bydd Cyngor newydd mewn grym	
16.0	**MSTFOMA (Menai Strait Fishery Order Management Association)**	
	Cyflwynodd y Cadeirydd eglurhad trwyadl o'r hyn a ddigwyddodd yng nghyfarfod diweddar o'r uchod. Y cam nesaf yw i MSFOMA gysylltu a Llywodraeth Cymru i gadarnhau rhai pwyntiau cyfreithiol ynglyn a'r cynllun arfaethedig. Nid oes dim ei angen oddi wrth y Cyngor Cymuned. Mae'r Cyngor Cymuned yn rhoi gwasanaeth cadeirio'r cyfarfodydd yn unig a bod gwybodaeth yn unig yn cael ei gyflwyno wedi'r cyfarfodydd.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 09:30	
Llofnod:		Dyddiad: